

Ein hawr fawr

“Ond i Dduw y bo’r diolch, sydd bob amser yn ein harwain ni yng Nghrist yng ngorymdaith ei fuddugoliaeth ef...” (adn. 14)

Beth am ddarllen 2 Corinthiaid2: 12–17 ac yna myfyrio

Ddoe, buom yn sôn am y gwyntoedd sydd yn chwythu ar yr Eglwys o bob cyfeiriad, nid yn gymaint erledigaeth gorfforol, ond yn hytrach gwrthwynebiad i’n safbwynt ar bethau fel priodas, erthyliad a gwrywydiaeth. Dywedodd ffrind i mi unwaith sydd yn weinidog: “Nid yw y bobl sydd yn ein herbyn yn dweud eu bod yn ein casáu ond yn hytrach yn gofyn ble ydych chi’n sefyll?” Efallai o dan y cyfan fod y gri honno a gyfeiriais ati eisoes yn codi: “Os na allwch effeithio fy nhröedigaeth yr wyf am eich erlyn.” Mae’n amlwg y dylem wneud mwy na sefyll yn y stormydd yma, dylem eu defnyddio. Ond sut?

Yn ôl A. J. Toynbee, yr hanesydd, yn ei lyfr *An Historian’s Approach to Religion*, dywed fod yna nifer o ffyrdd y gall mudiad ei gymryd wrth wynebu argyfwng. Yn gyntaf, gall encilio i mewn i’w orffennol a’r gogoniant a fu. Mae Toynbee yn galw hyn yn ‘hynafiaeth’. Neu, gall wynebu y dyfodol gan adeiladu cestyll yn yr awyr. Gall freuddwydio am yr hyn y buasai yn hoffi ei wneud. Mae’n galw hyn yn ‘ddyfodolaeth’. Yn drydydd, gall encilio gan roi iddo’i hun brofiadau cyfriniol. Ei derm i ddisgrifio hyn yw ‘cyfriniaeth’. Yn bedwerydd, gall gymryd gafael yn yr argyfwng, ei drawsnewid i fod yn rhywbeth positif gan wneud cychwyn newydd. Mae’n galw hyn yn ‘ddiwygiad’. Dim ond yr ateb olaf sydd yn ateb. Mae’r gweddill i gyd yn fyrhoedlog.

Mae gan y Tsieineaid air am argyfwng sydd yn defnyddio dwy lythyren – perygl a chyfle. Ymhob argyfwng, mae y perygl yn bodoli y gall popeth chwalu ond ar yr un pryd, mae y cyfle i bob peth gael ei ddiwygio a’i drawsnewid. Fel y dywedodd Syr Winston Churchill yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gall hon fod yn awr fawr i ni. A ydym yn fodlon ar fyw drwy’r awr neu ynteu a ydym am geisio defnyddio yr awr i fod yn gyfle newydd? Dyma yw ein dewis.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 14:1–31; 16:1–15; Num. 13:17–14:11

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Cymharwch agwedd Moses a’r Israeliaid?
2. Beth fyddwch chi’n ei wneud mewn argyfwng?

Gweddï

O Dad, arbed ni rhag hynafiaeth, dyfodolaeth a chyfriniaeth. Cymorth ni i gymryd llwybr diwygiad a thrawsnewidiad. Mae pob adnodd ar ein cyfer yn yr Efengyl. Cynorthwya ni trwy ffydd i’w meddiannu yn Iesu Grist. Amen.